Panel Ymgynghori Strategaeth Goetiroedd – Rôl a Threfniadau Gweithio

Diben

'Gweithredu yn Banel Ymgynghori i Weinidogion a Chomisiynwyr Coedwigaeth ar weithredu Strategaeth Goetiroedd Cymru a'i hadolygiadau o dro i dro'

Cylch Gorchwyl

- Cynghori ar weithredu Strategaeth Goetiroedd Cymru gan bob sefydliad partner, ar sail dealltwriaeth drylwyr o weithgarwch a pholisïau cyfredol

- Monitro ac adrodd i'r Pwyllgor Cenedlaethol, ar weithredu Strategaeth Goetiroedd Cymru gan yr holl sefydliadau partner drwy ystyriaeth reolaidd o'r datblygiad tuag at amcanion fel y'u diffinnir yn y fframwaith monitro terfynol, 'Targedau a Dangosyddion' terfynol.

- Cynghori ar faterion penodol y mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn eu haseinio i'r Panel

- Edrych tua'r gorwel i ganiatáu i'r Strategaeth (a CC Cymru fel adran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ddatblygiad polisi coedwigaeth a'r sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros gyflwyno'r strategaeth) ymateb i faterion ac agendâu newydd

- Datblygu cyfleoedd rhwydweithio ar draws swyddi a sectorau sefydliadol gyda'r uchelgais o hybu manteision coedwigaeth ar gyfer pobl Cymru

- *Beirniadu mewn ceisiadau ar gyfer cymorth grant neu drwyddedau cwympo coed lle bo anghydfod ac mewn anghydfodau gan y cyrff statudol a fon codi o gynlluniau dylunio'r Comisiwn Coedwigaeth (drwy is-bwyllgor o'r Panel pan ddaw ac yn ôl y gofyn))**

*** Mae'r geiriau mewn llythrennau italig yn disgrifio elfen ymgynghorol statudol cylch gorchwyl y Panel fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Goedwigaeth (1967)*

Mecanweithiau Cytûn Eraill

- Bydd y Panel yn adrodd i weinidogion ac i Gomisiynwyr Coedwigaeth y DU, os yw'n berthnasol, drwy Bwyllgor Cenedlaethol CC Cymru

- Bydd gan Gadeirydd y Panel sedd ar Bwyllgor Cenedlaethol CC Cymru.

- Bydd aelodau'r panel yn cael eu penodi gan Bwyllgor Cenedlaethol CC Cymru, a fydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau masnachol, amgylcheddol a chymdeithasol. Am dymor 4 blynedd y Panel sy'n dechrau ym mis Ionawr 2007, bydd 5 aelod yn cael eu penodi i lenwi

pob un o'r tri phortffolio hyn, gyda 3 aelod ychwanegol heb bortffolio (cyfanswm o 18 o aelodau).

- Bydd y Pwyllgor Cenedlaethol, wrth benodi, hefyd yn ystyried materion cydbwysedd rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, yn ogystal â chydbwysedd o ran rhyw lle bo modd.

- Bydd aelodau yn eistedd ar y Panel fel unigolion. Pan fo aelod yn gweithio i sefydliad partner y Strategaeth Goetiroedd, gall y bydd angen egluro ar adeg a yw'r aelod yn mynegi barn unigol neu farn y sefydliad (os ydynt yn wahanol i'w gilydd).

- Bydd CC Cymru'n darparu Ysgrifenyddiaeth i'r Panel. Ni fydd y Comisiwn yn cael ei gynrychioli ar y Panel. Bydd Adran Arloesi, Menter a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu 'sylwebydd' cyfranogol a fydd hefyd yn rhan o'r ysgrifenyddiaeth.

- Pan fo aelodau'n gweithio i sefydliad partner y Strategaeth Goetiroedd, gallant ofyn i ddirprwy a enwir (ymlaen llaw) fynychu cyfarfodydd o dan amgylchiadau eithriadol. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cadw rhestr o ddirprwyon a enwir.

- Ar ôl cyflwyno papur mewn cyfarfod Panel, bydd aelodau'n cael pythefnos fel arfer i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach i Ysgrifenyddiaeth y CC.

- Bydd aelodau o Bartneriaeth y Strategaeth Goetiroedd ehangach a'r cyhoedd yn gallu rhoi sylwadau ar waith y Panel naill ai drwy wefan CC Cymru neu drwy gysylltu ag aelod o Ysgrifenyddiaeth CC Cymru.

<u>Trefniadau Gweithio Eraill</u>

- Nod y Panel fydd cwrdd 3 gwaith y flwyddyn a bydd rhai cyfarfodydd yn cynnwys elfennau maes i alluogi aelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf o ran datblygiadau diweddar ynghylch gweithredu'r Strategaeth Goetiroedd.

- Nod y Panel fydd cwrdd ledled Cymru, er na fydd cylchdro pendant rhwng y gogledd, y Canolbarth a'r de yn bosibl ond lle bydd daearyddiaeth y teithiau maes yn caniatáu hynny.

- Saesneg fydd iaith weithio'r panel, ond bydd papurau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Bydd Ysgrifenyddiaeth y CC yn cynnal cronfa ddata eang o unigolion sydd â diddordeb yn Strategaeth Goetiroedd Cymru. Gelwir y rhestr hon o unigolion yn **'Partneriaeth y Strategaeth Goetiroedd'** a bydd yn gynhwysol, ar sail diddordeb yn unig. Y bartneriaeth hon fydd y brif gynulleidfa ar gyfer gwybodaeth ac ymgynghori gan Ysgrifenyddiaeth y CC ar faterion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

- Bydd Ysgrifenyddiaeth y CC, mewn ymgynghoriad â'r Panel, yn trefnu digwyddiadau blynyddol y bydd yr holl bartneriaid yn cael eu gwahodd iddynt. Y nod fydd cyfathrebu 2-ffordd ar gyflwyno a heriau parhaus y Strategaeth.

- Bydd y Grwpiau Cynghori ar Bolisi, yn ogystal â grwpiau llywio a fforymau, yn gweithredu dan ymbarél **'Partneriaeth y Strategaeth Goetiroedd'.** Ar adegau, bydd yn briodol i'r Panel ystyried materion a godir gan y grwpiau hyn a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Cenedlaethol os oes angen. Pan gaiff y materion hyn eu cyflwyno gerbron y Panel, bydd cadeirydd neu gynrychiolydd y grwpiau hyn yn mynychu'r cyfarfod perthnasol i gyflwyno materion neu gyngor y grŵp.

<u>Aelodau'r Panel (Ionawr 2007 – Rhagfyr 2011)</u>

Dr Roger Cooper – Cadeirydd

Nigel Ajax Lewis*
Alex Brownlie
Dr John Edington*
Helena Fox*
Rory Francis*
Dr Alun Gee
Sue Gittins*
David Hughes*
Chris Inglis*
David Jenkins*
Tim Kirk*
Bernard Llewellyn*
John Lloyd Jones*
Hilary Miller*
Phil Morgan
Yr Athro Colin Price
Dr Tim Stowe*
Celia Thomas*
Bob Vaughan*

Gareth Price [DEIN – LICC] i fynychu cyfarfodydd fel rhan o'r Ysgrifenyddiaeth

* yn dynodi aelod o'r is-bwyllgor anghydfod statudol yn unol â'r Cylch Gorchwyl

Clive Thomas

Ysgrifenyddiaeth CC Cymru
Tachwedd 2006